

GWEDD AR NEDD

CAST INTO NEATH

March 7th - 28
Opening Saturday
7th March, 2pm

Open Tuesdays to Saturdays
10am to 4pm

QUEEN
STREET
GALLERY
CONTEMPORARY ART

Queen Street Gallery
The Canterbury Lofts
Queen Street, Neath
SA11 1DL

queenstreetgalleryneath.co.uk



Gwedd ar Nedd Cast Into Neath

Cellular © Lyndon Davies; all other texts © David Greenslade
visual imagery © the individual artists

Diolch i / Thanks to: Aled Llion Jones; Trefor Jones; Eiry Palfrey; Steve
Reed, Gareth Richards; Norman Harris.

Gwedd ar Nedd particularly acknowledges support for this exhibition – Cast
Into Neath – from Harris Printers, Porthcawl and Incunabula Media, Swansea.

CELLULAR

Where relevant boundary conditions
consolidate inner systems
delineate possible knowledge fields
happy as the day
all the mechanisms running efficiently
with more than enough slack
for japes hijinks holiday
new patterns of *amour*
tied to gravity an informed trust
in the fit of the process and reception
strength of the scaffolding's
lengthening dance in the gap here
between solid ground and sky.

Lyndon Davies (from, *An Allotment*, Aquifer Books, 2025)

Mae'r Nedd yn tarddu mewn man hudolus, wrth odre Fan Nedd ym Mannau Brycheiniog. Rhed tua'r de trwy geunentydd twfn a thros sgydau prydferth. Ger Craig y Dinas mae'r Mellte yn ymuno ac mae'r llifeiriant yn cynyddu wrth i ddolydd gwastad a llydan Cwm Nedd ymddangos.

Dyma fan cychwyn gweledigaeth Bethan Ash o Gymru a David Greenslade o Rwmania i greu arddangosfa o'u syniadau a'u gweithiau celf.

Yn 2022, cyfarfu David Greenslade y bardd â'r cyfieithydd Peter Sragher ym mhentref Poiana de Schit yn Rwmania. Yr achlysur oedd encil creadigol a drefnwyd gan y llenor Florin Dan Prodan a'r grŵp Zidul de Hartie (llyth: Mur o Bapur). Recordiodd Peter David yn darllen ei farddoniaeth yn Gymraeg. Yn ddiweddarach datblygodd y podlediad yn rhaglen ddogfen a ddarllwyd yn genedlaethol ar Radio România Actualități.

Ym Mis Medi 2025, trefnodd Peter Sragher arddangosfa o luniau digidol trosiadol David yn Amgueddfa Genedlaethol Llenyddiaeth Rwmania, ym Mwcarest. Roedd y gwaith a arddangoswyd yn cynnwys elfennau o Gymru, Japan, Oman, Tsieina, Y Weriniaeth Tsiec a Rwmania. Pan welodd Bethan Ash, Curadur Oriel Stryd y Frenhines, Castell-nedd y gwaith, penderfynodd ar amrantiad gynnal arddangosfa debyg yng Nghastell-nedd. Byddai'r 'cast' o gymeriadau yn cynnwys artistiaid o ddwyrain a chanolbarth Ewrop, ochr yn ochr ag artistiaid a pherfformwyr o Gymru. Fel hyn y daeth y pennawd 'Cast into Neath/Gwedd ar Nedd' i fodolaeth. Defnyddir 'gwedd' yma yn yr ystyr 'trem', neu 'arolwg', â'r ystyr ehangach o 'casglu' neu 'taflu'. Cast o gymeriadau. Yn Saesneg, mae 'cast' yn perthyn i gysyniad Martin Heidegger, *Geworfenheit* (y cyflwr o fod wedi'ch taflu i ganol byd).

Yn union fel ffrwd afon Nedd, mae gan yr arddangosfa hon ei his-nentydd sy'n ymchwyddo'n llifeiriant byrlymog. Ochr yn ochr ag Anatoly

Shmatok (Wcráin), Přemysl Martinec a Dagmar Štěpánková (Y Weriniaeth Tsiec), George Ostafi (Rwmania), ac Andrzej Markiewicz (Gwlad Pwyl), gwahoddodd Bethan a David artistiaid o Gymru – rhai ifanc, megis Daniel Stevenson; a'r profiadol, megis Mary Lloyd Jones.

Yn 2001, gwahoddwyd David i ymuno â Keith Bayliss, Iwan Bala a Roger Moss yn y prosiect 'Breuddwydio Liw Dydd', sef cyfres o arddangosfeydd rhwng Abertawe a'r Weriniaeth Tsiec. Datblygodd y syniad wrth i Ivor Davies gyflwyno David i William McClure Brown ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont ar Ogwr, 1998, a bu cydweithio brwd rhyngddynt.

Yn sgîl ei phrofiad creadigol â thecstilau, datblygodd syniad Bethan o greu clytwaith rhyngwladol yma yn ne Cymru. Byddai hon yn fantell ddeniadol ac iddi phatrymau a gwead creadigol unigryw. Dyma Cast into Neath / Gwedd ar Nedd.

Mae'r artistiaid uchel eu parch sy'n rhan o'r arddangosfa hon yn cadarnhau'r ffaith bod Castell-nedd wedi datblygu'n ganolfan artistig egnïol. Rhestrir yr artistiaid yn nhrefn yr wyddor. Mae manylion y mwyafrif ar gael ar-lein, gan gynnwys manylion eu gyrfaedd. Mae rhai'n cysgodi rhag y rhyngrwyd, ac yn cilio rhag dylanwadau a chyhoeddusrwydd y we fyd-eang. Maent yn ddihirod addfwyn sy'n haeddu clod.

Just as the River Neath officially begins at Pontneddfechan, where the Afon Mellte and Nedd Fechan meet, the exhibition Gwedd ar Nedd/Cast into Neath started with a confluence of aspirations – those of Bethan Ash in Wales and those of David Greenslade in Romania.

In 2022 David Greenslade met poet and translator Peter Sragher in the Romanian hamlet of Poiana de Schit. The occasion was an artistic retreat organized by poet Florin Dan Prodan and the literary salon Zidul de Hartie (lit. Wall of Paper). Peter recorded David reading his poetry in Welsh. This podcast later led to a documentary on Romanian national radio.

In September 2025 Peter Sragher arranged an exhibition of David's digital photo-collages at the National Museum of Romanian Literature. The work displayed included elements from Wales, Japan, Oman, China, the Czech Republic and Romania. When Bethan Ash, Curator and Director of Queen Street Gallery saw the material she promptly decided that there should be an international exhibition in Neath. The 'Cast' of characters would include artists from eastern and central Europe alongside artists and performers from Wales. Hence the title 'Cast into Neath': a cast of characters. In Welsh, 'Gwedd ar Nedd'; 'gwedd' in the sense of 'trem' – an overview, also with its additional interpretations of 'gathered' or 'thrown'. One casts a shadow, even a halo, seeds may be cast into a field. 'Cast' as in Martin Heidegger's concept of *Geworfenheit*.

Just like the River Neath, this exhibition has many creative tributaries. Alongside Anatoly Shmatok (Ukraine). Premysl Martinec and Dagmar Stepakova (Czech Republic), George Ostafi (Romania), and Andrzej Markiewicz (Poland), Bethan and David invited Welsh colleagues they have

known and worked with – some younger such as Daniel Stevenson and Marega Palser and others, respected elders, such as Mary Lloyd Jones.

In 2001 David was invited to join Keith Bayliss, Iwan Bala and Roger Moss for the Swansea-Czech exhibition series 'Dreaming Awake'. It was thanks to Ivor Davies that David first collaborated with William McClure Brown for the 1998 National Eisteddfod in Bridgend.

Bethan, from her experience with textiles conceived a radical, international quilt in the heart of south Wales. It would be a magical garment stitching new patterns. Cast into Neath/Gwedd ar Nedd models a supple cloth of creative talent.

Participants in this exhibition contribute to the fact that Neath has become a nexus of artistic energy. Artists are listed in alphabetical order, and most have an online presence. Some are 'internet shy', yet to cast a cyber shadow on an overcrowded world-wide web. Such amiable outlaws are to be applauded.

JENNY ALLAN is a graduate of Glasgow School of Art (1966-70) where she studied printmaking under Phillip Reeves (1931-2017). She is a member of The Welsh Group and has lived in Wales since 1987. Primarily working in oils, reflections on the notion of self and authenticity are central to her art. Mae Jenny yn gweithio'n bwylllog, yn gyson ac yn fanwl gan gymryd sawl mis, blwyddyn hyd yn oed, cyn caniatáu i'w gwaith gorffenedig gael ei arddangos.



IWAN BALA was born in Sarnau, near Y Bala in 1956, making him now one of the older generation of artists who from the 1970s raised a politicised voice through visual art in Wales. Recent work is built on top of older works stored in his studio; palimpsests in a sense. Mae Iwan Bala yn un o hoelion wyth y byd celfyddydau yng Nghymru ers iddo raddio o Goleg Celf Caerdydd ym 1977. Gwelir ei waith mewn casgliadau ledled Cymru.


KEITH BAYLISS, is a painter, print-maker, sculptor and collaborator with poets - most notably Malcom Parr. It was Keith who mobilised the arts collaboration that took Welsh artists to locations in the Czech Republic and brought Czech artists and writers to Swansea. Un o gampweithiau Keith Bayliss yw'r gyfrol White Voices (*La Croisade des Enfants*) gan yr Old Stile Press ar y cyd â'r bardd Malcolm Parr (2001). Gan ddefnyddio papur sidan fel cyfrwng mae ei gynlluniau etheraid mor effemeral â'r enaid dynol.





LYNNE BEBB is a writer, and versatile community artist. Holding a degree in social anthropology she also trained as a sculptor. She is past chair of the Josef Herman Art Foundation and the Welsh Group. She repurposes newsprint into a narrative reconstructed out of memory, protest and concern for the future. Creu adar, yn enwedig brain allan o bapur yw un o'i nodweddion. Mae ei brain yn taflu golau ar fympwyon dynolryw, naill ai fel bendith neu fel cysgod ofergoelus.

WILLIAM MCCLURE BROWN (1954-2008) set up a studio in Llangynwyd near Maesteg where his wife Carys was headteacher at Plasmawr School. Poet Malcolm Parr said more than once that his "arrival was one of the best things that ever happened to the arts in Wales." Trwy law Colin Williams a'i raglen 'Cadw Sŵn' ymdrechodd William Brown i ddysgu'r iaith. Mae elfennau Cymreig megis y llwy caru, a'r Fari Lwyd yn ymddangos yn ei waith yn gyson.



NEIL AP CYMRU is the initiator of "Evolvicism: The Icon Art of Dignity & Accountable Knowledge in-order to inspire Cymru to Independence". He is founder of the 'Cymru-In' Movement. He has composed "The Welsh Freedom Song: Cymru Liberty" & is ready to publish his work. Newidiodd ei enw o 'Jones' i 'ap Cymru' ac mae brwyfrydedd Neil dros ei famwlad yn amlwg. Mae ei ymdrechion yn anelu at ailddiffinio Gwlad y Menyg Gwynion yn radicalaidd i ddweud y lleiaf.

One of Wales's most prominent late 20th century artists, **IVOR DAVIES** was born in Treharris. A former vice president of The Royal Cambrian Academy of Art he created the Ivor Davies Award and is an indefatigable champion of the arts in Wales. In 2026 he celebrates his 91st birthday. Yn y sioe hon, sef Gwedd ar Nedd, mae e'n cyflwyno Chromatopia, gyfarwyddwyd gan Chris Glynn. Seliwyd y ffilm ar brosiect – Y Llyfrau'n Plygu – trwy gweithredu gyda Ren Jie (Tseina).



SIMON EVANS (1960-2016) grew up as a feral child in Mayals, Swansea. He graduated from Brighton College of Art then scraped a living painting theatre sets in London. Utterly anarchic, he abandoned his paintings to the sheds and garages of friends, where many still remain – undiscovered. Mae Simon Evans yn un o nifer o artistiaid anghofiedig Cymru – mae ei enw yn haeddu ei adfer gan fod ei themau yn dra anghyffredin, dwys, cywrain ac unigryw


After completing a degree in Fine Art, **JONATHAN GREEN** retrained as a psychotherapist working with other professionals to create new paradigms of health care. He helped set up ChildLine in Wales working there for 20 years whilst making assemblage-objects reusing discarded materials. Chwareus yw'r gair gorau i ddisgrifio cynnyrch Jonathan, a hefyd ei agwedd tuag at greu. Mae e'n pori trwy domenni sbwriel er mwyn ffurfio ei greadigaethau/creaduriaid sy'n ymdebygu i deganau, a'u nodweddion.





DAVID GREENSLADE is primarily a poet who turned towards making visual work late in his career. He shares his time between Wales and Romania and in 2025 had an exhibition at the Romanian National Museum of Literature, Bucharest. His latest publication is *Sponge, the Animal that Gave us Oxygen* (Incunabula, 2024). Un sydd wedi 'dychwelyd i'r iaith' yw David, ac o canlyniad mae e'n ysgrifennu, cyhoeddu ac ymuno ym mywyd cyflawn y wlad ac nid y rhan Seisnig yn unig.

Exhibiting proved exciting lately with collaboration for London Fashion Week and the BBC series *The Guest* . . . art is organic and changes with every generation. But in the end it's a green door in Mediterranean sunlight framed by walls and sky. . . work that one out . . . Mae llwyddiant **NEALE HOWELLS** ym myd y celfyddydau yn glod i'w ddyncwch dros y blynyddoedd – a hefyd ei deyrngarwch i'w filltir sgwâr, sef Castell-nedd.



MARTIN LANGFORD (1945-2025) studied at Carmarthen College of Art under Stanley Cornwell Lewis (1905-2009) before embarking on a career as a cannabis smuggler. Upon leaving prison Martin devised a silvery, drip-flow, quick dry, mastic – a secret he kept to himself. The results have been described as 'autoschediastic mandalas'. Roedd Martin llawn straeon. Bu'n raconteur wrth reddf, yn swyno pob cwmni gyda chwedlau am ei gyfnod yn smyglo. Ond nid oedd am ddatgelu dim am ei dechneg o greu lluniau.


MARY LLOYD JONES was born in Pontarfynach and studied at Cardiff College of Art. She is a painter and textile artist with work in many public and private, international collections. She is known for her unwavering commitment to the linguistic, literary and geographic Welsh cultural heritage. Mary will be 91 in 2026. Wedi cyfnod o ddysgu yn Nyfed yn gynnar yn ei gyrfa, fe aeth yn artist llawn-amser, gan ddod yn un o artistiad amlycaf Cymru. .



JULIA LOCKHEART – visual artist, poet, writer, and emeritus professor at Swansea College of Art, UWTSD. She has painted other people's dreams in live Dream Salons since 2016. Her DreamsID.com collaborations have been exhibited internationally. Her 2023 book, *The Science and Art of Dreaming* (Routledge) contains many of her surrealist inspired paintings. Does dim pall ar ei hegni rhyfeddol – llyfrau, arddangosfeydd, darlithiau a'r gweithdai breuddwydio – a gynhaliwyd yn Zurich, Paris, Llundain ac yn awr yng Nghastell-nedd.

REBECCA LOWE is a Pushcart-prize nominated writer, editor and journalist, based in Swansea. She is a Bread and Roses Spoken Word Award winner. In 2024 she published *Write Mindfully: Unlocking the Writer Within*. She hosts Talisman Spoken Word monthly poetry open mic and has run Writing for Mindfulness with Arts for All. Mae Rebecca hefyd yn gerddor o fri sy'n canu'r dwsmel wrth adrodd ei thelynegion. Mae ei cherddi yn nodweddiadol o'u bywiogrwydd wrth iddi eu hadrodd.





ANDRZEJ MARKIEWICZ is a painter, sculptor and senior faculty member at Radom University, Poland. He has held solo exhibitions throughout eastern and central Europe. He first connected with Neath in 2025. Synecdoche is an abiding aspect of his work – where parts of greater contexts radiate through patterns of cohesive fragments. Gweithio mewn

cyfres ac ail-ddyfeisio wrth wneud hynny, yw un o dechnegau Andrzej. Trwy ail greu cymaint o weithiau mae e'n taro ar agwedd newydd o'i weledigaeth gwreiddiol.

PREMYSL MARTINEC is a member of the Group of Czech-Slovak Surrealists. In addition to publishing asemic texts, he is a photographer, ceramicist, costume designer and painter, all in the free-form, *pure automatism* style. Premysl has held many solo exhibitions throughout the Czech Republic. Mae ymrwymiad Premysl at arbrofi wrth reddf, heb ganlyniad mewn golwg yn rhoi ymdeimlad o ryddid i'w waith. Hefyd mae presenoldeb mygydau, a'u gallu i gelu a datgelu, yn dwysau yr elfen theatrig.



MICHAEL MONAGHAN studied at Cardiff School of Art & Design. Oil is his chosen medium, applied with brushes and palette knives, enabling him to give life and texture with his "impasto" work. The process of direct painting wet on wet enables Michael to project feeling and life into his pieces. Synhwyro paent wrth ei osod ar gyfnas sy'n sbarduno Monahan i gyrraedd y nod. Mae cyfeiriad y defnydd wrth greu ei

ddelweddau yn bywiogi'r cynnyrch terfynol.

Born in Lancashire, sculptor **ROGER MOSS** has lived in Wales for over fifty years. In 1982 he became Head of Sculpture at Dyfed College of Art. Invited to test its limits, he was consultant-researcher at Cardiff's National Centre for Product Design and Development, experimenting with advanced prosthetic limb technology. Mae gwaith Roger Moss

yn cyfuno'r crai a'r cywrain, tra'n cyplysu elfennau naturiol a soffistigedig. Saif ei gerfluniau llawn argyhoeddiad o'n blaenau, er nad oes iddynt ddiffiniad.



GEORGE OSTAFI (1961-2019) was Arts Officer at the Museum of Bucovina, Romania. Fluent in several languages he exhibited regularly in Poland, Germany, at home and, in 2002, at the Senedd, Cardiff Bay. This stunning painting of mushroom and seashell was made with Welsh artist, John Welson. George fathodd y teitl i'r sioe yn y Senedd 'Impertinent Distortions' – sef 'Gwydion Beiddgar' yn y Gymraeg. Roedd yn ddewin o ddyn ac yn croesawu artistiaid o Gymru i Rwmania.

MAREGA PALSER is a Newport based artist who has worked in immersive theatre, punk and across the range of contemporary avant-garde performance. A Graduate of the London School of Contemporary Dance and Cardiff School of Art and Design, she has studied Butoh in Japan and Kundalini in India. Does dim diwedd i'w doniau wrth iddi dynnu lluniau, pentyrru gwrthrychau a thrawsnewid y gofod o'i chwmpas. Mae hi'n dawnsio, canu ac adrodd mewn byd o rhyfeddodau a addaswyd i'w dibenion perfformio.





RICHARD PARRY is the artistic director of the cultural facilitation organisation Coleridge Cymru. He has made work at Amgueddfa Cymru, inside Y Lle Celf, within the Gorsedd Circle of the Eisteddfod Genedlaethol, at the Senedd and at locations across Wales. He is grateful for ongoing collaborations

with and inspiration from Ifor Davies. Mae Richard hefyd yn gyfansoddwr ac yn ganwr o fri. , Yn 2024 roedd yn ysgolhaig yng Nghanolfan Caergrawnt ar gyfer Astudio Platonïaeth – testun, ‘ffydd a rhesymeg’.

GUSTAVIUS PAYNE was raised on Merthyr’s Gurnos Estate. He studied Fine Art at Cheltenham and in Athens. Elected to the Welsh Group in 2013, his figurative paintings position mythology and folklore alongside ecological and political concerns. The paintings feature narrative elements portraying a turbulent world. Caiff pobl flaenoriaeth bob amser. Gan amlaf mae’r artist yn eu gweld o ogwydd tra angffredin – islaw, uwchben, neu’n ymdroi ymysg ei gilydd fel petaent mewn gorymdaith dorfol yn erbyn y byd.



DAVID ROBINSON is a painter and printmaker based in Porthcawl. His work reflects the importance of local community. Recent exhibitions include: ‘Wales Contemporary’ (London/Milford Haven), ‘A Cloud of Witnesses’ (London), ‘Y Lle Celf’ (National Eisteddfod 2024) and exhibitions with Cowbridge Art Society. He is a member of the Swansea Print Workshop. Mae’r iaith

Gymraeg yn ganolog i flaenoriaethau David, a’r brethyn brau lle mae’r iaith yn dal ei thir. Mae ei luniau a phrintiadau yn adlewyrchu hynny.

GEOFF SAWERS is a neurodivergent artist and writer based in Reading. His most recent book is 'Widdershins Walk' (with Peter Driver, Peculiarity Press 2025). A longstanding member of Two Rivers Press, Geoff has edited and written the introduction for The Complete Short Stories of Dorothy Edwards (Blackthorn, 2025). Mae Geoff yn hanu o Gwm Ogrwr lle bu ei deulu ar un adeg yn weithgar yng ngwleidyddiaeth y cyfnod, yn arbennig streic y glowyr (1912). Roedd Dorothy Edwards yn hen fodryb iddo.



ANATOLY SHMATOK is a self-taught Ukrainian artist in what is known as the 'pure art' tradition, sometimes referred to as naïve, folk or *art brut*. In 2023 he had a solo exhibition at Kiev National Gallery of Art with a catalogue sponsored by KUSUM charitable fund. Mae testunau Anatoly yn cynnwys y gwladgarol a'r cartrefol. Mae e'n talu sylw i hyn sydd yn blwmp ac yn blaen o flaen ein llygaid – boed yn ryfel, yr aelwyd neu anifeiliaid y fferm.

RAUL SPEEK, born in Guantanamo Province, Cuba. After leaving the navy he became part of the art scene in 1980s Havana. Following participation in a 1989, BBC Arena documentary, he moved to Britain, at first Spitalfields, then to Wales in 1995. He now runs Gallery Speek at a former chapel in Solva. Wrth ehangu ei orwelion, mae teithio wedi ei ysgogi i synfyfrio am ei fywyd, ei safle yn y byd, cyd-destun ei hanes personol, a chreu celfyddyd yma yng Nghymru.






PETER SPRIGGS studied at the Royal College of Art, London. He lectured at Carmarthen School of Art, later at University of Wales Trinity St. David. He first witnessed the Greek Easter with lit candles when living adjacent to St. Sofia's Cathedral, Bayswater. Candles have appeared in his paintings intermittently ever since. Yn nwylo Peter mae'r ganwyll yn symbol o oleuni, yn ogystal â ffurf sy'n galluogi'r artist i ymhyfrydu yn siâp

syml y cwyr, presenoldeb yr enaid, a byrder einioes dyn.

DAGMAR STEPANKOVA teaches at the Faculty of Social Sciences, Charles University, Prague. As a photographer she has exhibited her images of pareidolic water gazing. Dagmar has translated the poetry of Josef Janda, Eva Švankmajerová, texts for the Swansea-Czech project, the Analogon Group and for the Czech and Slovak Surrealists. Mae Dagmar (Dada) wedi estyn croeso i nifer fawr o artistiad o Gymru i Prâg. Mae'r llyfryn Y Ferch Ddarogan (1998) yn llwyfan i un ar bymtheg o'i lluniau.



DANIEL STEVENSON is a Swansea Jack whose interest in making visual art started during the Covid lockdowns. He has an obsessive commitment to drawing small circles, ovoid shapes and other cellular repetitions, then infilling them according to intuitive improvisation. The results, so far, have only been exhibited between Swansea and Cardiff. Mae e'n eithriadol o ddiymhongar ac nid yw'n hoff o sylw. Eto mae e'n gydweithiwr proffesiynol ac yn ffyddlon i'w alwedigaeth fel artist o reddf.

Born in Livingstone, Zambia, **RHYS TRIMBLE** is a bilingual poet, teacher, visual artist, musician and improvisational performer. He has recited poetry to the beat of his *pastwn* (staff) while skillfully blending voice, ambient sound, the traditional and the radically unlikely for startled audiences in many countries. Daeth Rhys i Rwmania yn 2025, gan adeiladu ar ei berfformiadau yn Colombia a Cairo. Wrth gydweithio gyda cherddor o'r Eidal, cafodd y cynulleidfaoedd wledd o farddoniaeth a lleisiau amlieithog.



